ATODLEN 3

CYFRANIADAU'R MYFYRIWR

# RHAN 2

## Cyfrifo cyfraniad

### Incwm yr aelwyd

**2.**—(1) Mae swm cyfraniad myfyriwr Coleg Ewrop neu fyfyriwr Athrofa Prifysgol Ewrop yn dibynnu ar incwm yr aelwyd.

(2) Incwm yr aelwyd—

(a) yn achos myfyriwr Coleg Ewrop nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol, yw agregiad o incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys ac incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr Coleg Ewrop (yn ddarostyngedig i baragraff 4(9)) ac—

(i) yn achos myfyriwr newydd a gychwynnodd ar y cwrs cyn 1 Medi 2005, yw incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr (ac eithrio person sy'n byw fel arfer gyda rhiant myfyriwr cymwys fel pe bai'n bartner sifil i'r rhiant) ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 4(9); neu

(ii) yn achos myfyriwr newydd a gychwynnodd ar y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005, yw incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr (ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 4(9));

(b) yn achos—

(i) myfyriwr cymwys annibynnol a chanddo bartner, neu

(ii) myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd a chanddo bartner,

yw agregiad o incwm gweddilliol y myfyriwr ac incwm gweddilliol partner y myfyriwr hwnnw (yn ddarostyngedig i is-baragraff (5)); neu

(c) yn achos—

(i) myfyriwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner, neu

(ii) myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd nad oes ganddo bartner,

yw incwm gweddilliol y myfyriwr hwnnw.

(3) Wrth ganfod beth yw incwm yr aelwyd o dan is—baragraff (2), mae swm o £1,100 i'w ddidynnu—

(a) yn achos myfyriwr Coleg Ewrop—

(i) am bob plentyn sy'n ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr neu ar ei bartner; neu

(ii) am bob plentyn ac eithrio'r myfyriwr Coleg Ewrop sy'n ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar riant y myfyriwr Coleg Ewrop neu ar bartner rhiant y myfyriwr y mae ei incwm gweddilliol yn cael ei gymryd i ystyriaeth; a

(b) yn achos myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd, am bob plentyn sy'n ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr neu ar ei bartner.

(4) At ddiben cyfrifo'r cyfraniad sy'n daladwy mewn cysylltiad â myfyriwr sy'n rhiant, nid yw incwm gweddilliol partner y myfyriwr sy'n rhiant i'w agregu o dan is-baragraff (2)(b) yn achos myfyriwr sy'n rhiant y mae gan ei blentyn neu blentyn ei bartner ddyfarndal y cyfrifir incwm yr

aelwyd mewn cysylltiad ag ef drwy gyfeirio at incwm gweddilliol y myfyriwr sy'n rhiant neu bartner y myfyriwr sy'n rhiant neu'r ddau.